Helpwch ni i benderfynu dyfodol cefnogaeth y Loteri Cenedlaethol ar gyfer y Celfyddydau a Ffilm, Chwaraeon a Threftadaeth

dcms

Rydym yn gofyn am eich barn ynghylch sut y dylid gwario arian y Loteri ar y celfyddydau a ffilm, a chwaraeon a threftadaeth ar ôl 2009.

Bob blwyddyn mae'r Loteri Genedlaethol yn codi ymhell dros £1 biliwn, sy'n cael ei rannu rhwng achosion da. Erbyn Ebrill 2005 codwyd dros **£17 biliwn** gan y Loteri ar gyfer yr achosion da a dyfarnwyd bron i **200,000 o grantiau** er budd cymunedau ledled y DU.

Mae'r Loteri Cenedlaethol yn chwarae rôl ym mywydau'r rhan fwyaf ohonom, boed fel chwaraewyr, rhai sy'n derbyn grant neu ddefnyddwyr cyfleusterau sydd wedi derbyn arian gan y Loteri. O brosiectau adeiladu arloesol, i ddillad newydd ar gyfer clwb chwaraeon, i gefnogi prosiect ffilm pobl ifanc neu grŵp hanes lleol, mae'r Loteri yn gwneud i bethau ddigwydd.

Rydym yn gofyn am eich barn i'n helpu ni i benderfynu pa gyfran o arian y Loteri ddylid ei roi i'r celfyddydau a ffilm, chwaraeon a threftadaeth ar ôl 2009, a beth ddylai'r polisi fod sy'n rheoli sut y dylid gwario arian Loteri i bob un o'r achosion hyn.

Ar hyn o bryd mae'r arian Loteri Cenedlaethol sy'n mynd i bob un o'r achosion da yn yr ymgynghoriad yma yn cael ei rannu fel a ganlyn. Mae tri achos celfyddydau a ffilm, chwaraeon a threftadaeth yn derbyn 16.7% yr un. Penderfynwyd eisoes ar y 50% sy'n weddill ac sydd ar hyn o bryd yn mynd i achosion da "elusennau, addysg, yr amgylchedd ac iechyd".

Mae cyfran gyfredol achosion y celfyddydau a ffilm, chwaraeon a threftadaeth wedi eu pennu tan Ionawr 2009. Diben yr ymgynghoriad yw canfod pa gyfrannau y dylid eu pennu ar gyfer achosion y celfyddydau a ffilm, chwaraeon a threftadaeth ar ôl y dyddiad hwnnw ynghyd â'r polisïau cenedlaethol ar eu cyfer.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi penderfynu y bydd achosion y celfyddydau a ffilm, chwaraeon a threftadaeth yn parhau ac ni fwriedir ychwanegu unrhyw achosion da newydd ar wahân i achos eithriadol Gemau Olympaidd Llundain yn 2012.

Rydym am glywed eich barn er mwyn llunio ariannu'r Loteri ar gyfer yr achosion da yma i'r dyfodol a phennu'r canlyniad mwyaf addas, gan geisio cael cydbwysedd rhwng barn pawb.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ynghylch y Loteri Cenedlaethol a'r ymgynghoriad ar gyfrannau yn **http://www.lottery2009.culture.gov.uk.**

Os nad oes gennych fynediad at y Rhyngrwyd yn eich cartref, fe ddylai fod gan eich llyfrgell leol gyfrifiadur sydd â mynediad at y Rhyngrwyd.

PWY ALL YMATEB

Mae'r ymgynghoriad wedi ei anelu at unrhyw un sydd â diddordeb yn ariannu'r Loteri Cenedlaethol i'r celfyddydau a ffilm, chwaraeon a threftadaeth. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb, prynwyr tocynnau'r Loteri Cenedlaethol yn ogystal â rhai sydd ddim yn chwarae, buddiolwyr grantiau'r Loteri, a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn meysydd yr achosion da.

SUT I GYMRYD RHAN

Gallwch gymryd rhan yn yr ymgynghoriad mewn amryw o ffyrdd. Rydym wedi datblygu holiadur i chi ei llenwi a'i dychwelyd atom ni.

Ar-lein: Ewch i wefan yr ymgynghoriad a llenwch yr holiadur ar-lein.
www.lottery2009.culture.gov.uk

Post: Mae'r daflen hon yn cynnwys holiadur, y gellwch ei lenwi a'i anfon yn ôl atom am ddim.

Ffôn: Cysylltwch â'r Llinell Ymholiadau Ymgynghoriad ar **020 7211 6372** i gael copi o'r holiadur wedi ei bostio atoch.

Yn Bersonol: Ewch i un o'r Cyfarfodydd Ymgynghori i fynegi eich barn yn bersonol. Gallwch hefyd gyflwyno'r holiadur yn y cyfarfod. Unwaith y bydd y cyfarfodydd wedi eu trefnu'n derfynol rhoddir manylion amdanynt ar y rhyngrwyd. Gallwch hefyd gysylltu â'r Llinell Ymholiadau Ymgynghoriad i gael gwybodaeth am y cyfarfodydd hyn.

Unwaith y mae'r ymatebion ymgynghori wedi eu casglu a'u dadansoddi byddwn yn cyflwyno ein casgliadau erbyn **Mehefin 2006**.

YMGYNGHORIAD Y LOTERI CENEDLAETHOL – HOLIADUR

Cwblhewch y ffurflen hon, seliwch yr amlen a'i hanfon yn ôl atom gan ddefnyddio'r cyfeiriad Rhadbost. Nid oes angen stamp.

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw dydd Gwener 28 Chwefror 2006.

1. CELFYDDYDAU

Mae arian Loteri wedi trawsnewid y tirlun celfyddydol a chyrraedd mwy o bobl, cymunedau a gweithgareddau celfyddydol nag erioed o'r blaen. Mae hyn wedi cynnwys adnewyddu amryw o adeiladau chodi rhai newydd sydd hefyd wedi cyfrannu at adfywio'r ardaloedd cyfagos. Mae hefyd wedi ehangu cyfranogiad yn y celfyddydau trwy greu cyfleoedd newydd i unigolion, sefydliadau a chwmnïau o bob rhan o'r gymuned i ddatblygu eu doniau a'u sgiliau creadigol. Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosib heb y Loteri. **A ydych yn Cytuno?**

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod

Rydym yn bwriadu parhau â'r polisïau ar gyfer achos da y celfyddydau ond mae ein papur ymgynghorol yn amlygu nifer o feysydd newydd y gellid, pe bai arian ar gael, darparu ar eu cyfer. **Beth yw eich barn?**

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod

2. FFILM

Mae arian Loteri ar gyfer ffilm wedi hybu'r ystod o ffilmiau nodedig sydd ar gael yn y DU, gan ysgogi creadigrwydd a diwylliant ac addysg delweddau symudol ledled Lloegr, a galluogi pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau creadigol a cymdeithasol trwy gymryd rhan mewn cynllun ar draws y DU i wneud ffilmiau byr a datblygu doniau trwy gefnogi hyfforddiant a datblygu sgiliau, y cyfan mewn ffordd na fyddai wedi bod yn bosib heb gefnogaeth y Loteri. **A ydych yn Cytuno?**

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod

Rydym yn bwriadu parhau â'r polisïau ar gyfer elfen "ffilm" achos da y celfyddydau ond mae ein papur ymgynghorol yn amlygu nifer o feysydd newydd y gellid, pe bai arian ar gael, darparu ar eu cyfer. **Beth yw eich barn?**

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod

3. TREFTADAETH

Mae cefnogaeth y Loteri wedi trawsnewid tirlun treftadaeth yn y DU, o safbwynt cadwraeth a symud y syniad o dreftadaeth fel rhywbeth a bennir gan arbenigwyr i rywbeth sy'n cynnwys cyfranogiad eang wrth benderfynu beth sy'n werth ei gadw. Ni fyddai cyfran helaeth o brosiectau mewn trefi a pharciau hanesyddol, cadwraeth ac adfer tir, amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau a threftadaeth ddiwydiannol wedi digwydd heb gefnogaeth Loteri. **A ydych yn Cytuno?**

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod

Rydym yn bwriadu parhau â'r polisïau ar gyfer achos da treftadaeth ond mae ein papur ymgynghorol yn amlygu nifer o feysydd newydd y gellid, pe bai arian ar gael, darparu ar eu cyfer. **Beth yw eich barn?**

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod

4. CHWARAEON

Mae arian Loteri wedi darparu etifeddiaeth wych o gyfleusterau chwaraeon o le chwarae i bodiwm yn cynnwys amryw o byllau nofio, meysydd chwarae, neuaddau chwaraeon a thraciau athletau. Credwn fod hyn hefyd wedi bod yn allweddol i wella perfformiad athletwyr Prydain yn y Gemau Olympaidd, gan helpu ein hathletwyr i gystadlu hyd eithaf eu gallu ac ennill medalau i Brydain. **A ydych yn Cytuno?**

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod

Rydym yn bwriadu parhau â'r polisïau ar gyfer achos da chwaraeon ond mae ein papur ymgynghorol yn amlygu nifer o feysydd newydd y gellid, pe bai arian ar gael, darparu ar eu cyfer. **Beth yw eich barn?**

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod

5. MYNEDIAD AT ARIANNU

A ydych yn Cytuno y dylai pob maes gael mynediad at arian y Loteri o fewn yr achosion da hyn ond y dylai'r Loteri barhau i ymdrin ag angen lle mae hynny'n briodol?

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod

6. CYDBWYSEDD ARIANNU ACHOSION DA

Ers 1998, mae'r celfyddydau, treftadaeth a chwaraeon wedi cael cyfran gyfartal o 16.67% o arian y Loteri. A ydych yn Cytuno y dylai hynny barhau?

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod

7. CYFEIRIAD I'R DYFODOL

Credwn na ddylid caniatáu i arian y Loteri ddisodli ariannu a fyddai fel rheol yn deillio o brif frwd ariannu'r Llywodraeth. Er hynny, fe all y Loteri gefnogi pethau sydd â chefnogaeth gref y cyhoedd ac fe all grantiau'r Loteri hybu gwasanaethau cyhoeddus prif ffrwd. **A ydych yn Cytuno?**

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod

Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch pa brosiectau i'w hariannu yn annibynnol gan ddosbarthwyr y Loteri. Ond mae angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a lle mae hynny'n briodol, gweinyddiaethau datganoledig ar y cyd a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, i bennu fframwaith rheoli cyffredinol. Dylai hyn fod ar lefel uchel yn unig. **A ydych yn Cytuno?**

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod

8. SYLWADAU PELLACH

I ddychwelyd y ffurflen hon, glynwch yr ymylon i'w gilydd a phostiwch y ffurflen. Ni fydd angen stamp arnoch os ydych yn postio o fewn y Deyrnas Unedig. Gellir gwneud copi o'r ffurflen hefyd a'i dychwelyd at **National Lottery Shares 2009, Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, 2-4 Cockspur Street, London SW1Y 5DH.**

Mae'r holiadur yma yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ar Gyfrannau'r Loteri 2009. Trwy gwblhau'r holiadur rydych yn ymwybodol y byddwn yn casglu gwybodaeth ystadegol ar sail eich ymateb. Mae'n bosib y cyhoeddir unrhyw wybodaeth bersonol neu sylwadau ychwanegol a roddir gennych i ni.

RHADBOST CYFRANNAU'R LOTERI CENEDLAETHOL 2009
Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH

GWLYCHWCH A SELIWCH

PLYGWCH

GWLYCHWCH A SELIWCH

Cydnabyddiaeth am y ffotograffau: Bride and Prejudice (Pathé Features); Dame Kelly Holmes (Getty Images); Cynllun Pres Ieuenctid y Rhondda (Betina Skoubro); Bournemouth Wartime Exhibition (Paul Close/Insight); Track 8 (Photo Sport England)